Ymateb Lywodraeth Cymru ar adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar Gynllun y Bathodyn Glas yng Nghymru: Cymhwystra a Gweithredu

---

Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau wedi cynnal ymchwiliad i gynllun y Bathodyn Glas yng Nghymru ar sail y cylch gorchwyl a ganlyn:

1. Effaith ehangu'r meini prawf cymhwystra am Fathodyn Glas yng Nghymru, ac a oes angen ehangu'r meini prawf ymhellach;
2. Y gwaith ymarferol o weithredu cynllun y Bathodyn Glas ar hyd a lled Cymru, yn ogystal â chysondeb y gwaith hwnnw, gan gynnwys asesiadau, ffioedd a gorfodi; ac
3. Y gefnogaeth a'r wybodaeth sydd ar gael i bobl sy'n gwneud cais am Fathodyn Glas yng Nghymru.

Ar 8 Gorffennaf 2019, ar ôl cynnal yr ymchwiliad, cyhoeddodd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ei adroddiad, **'Cynllun y Bathodyn Glas yng Nghymru: Cymhwystra a Gweithredu'.** Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i aelodau'r pwyllgor am eu gwaith caled.

Mae'r adroddiad yn rhestru 19 o argymhellion ac o'r rheini; materion i Lywodraeth Cymru oedd 18 ohonynt, a mater i mi fel Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth oedd un ohonynt.

Fe welwch isod fy ymatebion i argymhellion yr adroddiad.

Mae Cynllun y Bathodyn Glas yn gynllun gwerthfawr sy'n rhoi consesiynau parcio i bobl sydd â phroblemau symud difrifol er mwyn iddynt allu defnyddio gwasanaethau a chyfleusterau. Yng Nghymru mae'r gyfran o bobl a chanddynt Fathodyn Glas yn uwch nag yn y gweinyddiaethau eraill, gyda dros 210,000 o bobl yn elwa ar y cynllun, ac mae'n bwysig i sicrhau eu bod yn gallu parhau i wneud hynny.

Y ddeddfwriaeth sylfaenol ar gyfer y cynllun cenedlaethol hwn yw Deddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970 sy'n rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i gynnal y cynllun yn eu hardal. Yr is-ddeddfwriaeth yw Rheoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000 fel y'u diwygiwyd. Mae hon yn pennu materion fel pwy sy'n gymwys (y meini prawf cymhwysedd), ffurf y bathodyn a'i gyfnod mewn grym.

Mae'r meini prawf diweddaraf yn cwmpasu'r rheini sydd â'r problemau mwyaf o ran eu symudedd. Mae ymgeiswyr yn cael eu hadnabod naill ai trwy'r budd-daliadau y maent yn eu cael neu, yn achos y rheini nad ydynt yn gallu ceisio am fudd-daliadau anabledd neu sy'n dewis peidio â cheisio am fudd-daliadau, trwy asesiad arall.

Awdurdodau lleol sy'n gweinyddu'r cynllun yn eu hardal a nhw sy'n gyfrifol am benderfynu pwy sy'n gymwys am fathodyn. Mae hwn yn waith anodd, ac er mwyn hyrwyddo cysondeb ledled Cymru mae Llywodraeth Cymru'n rhoi arweiniad ac yn cynnig gwasanaeth asesu annibynnol i'w helpu.

Ers 2002, mae'r cynllun wedi bod yn destun nifer o adolygiadau ac adroddiadau, a oedd yn edrych ar amryw agweddau ar y cynllun; cymhwysedd, gweinyddu a gorfodi. O ganlyniad mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n flaenorol i gyflawni newidiadau ar y cyd â rhanddeiliaid, drwy ymgyngoriadau cyhoeddus a rheoliadau. Mae cynllun y Bathodyn Glas wedi bod yn destun llawer o waith craffu i sicrhau y gall y rheini sydd â'r angen mwyaf elwa ar y consesiynau parcio, a bod y broses o gael bathodyn mor effeithlon, effeithiol a rhydd rhag straen ag y bo modd

Mae'r Pwyllgor wedi nodi yn eu hadroddiad y meysydd mae angen rhoi sylw iddynt yn eu barn nhw. Rwyf wedi ystyried y dystiolaeth a dderbyniwyd gan y Pwyllgor a arweiniodd at eu hargymhellion, ond rhaid imi nodi na fydd yn bosibl rhoi'r holl argymhellion ar waith.

Mae llawer o broblemau i'w hwynebu, yn enwedig o ran sicrhau bod cynllun y Bathodyn Glas yno i'r rheini sy'n bodloni'r meini prawf ac yn dibynnu arno i fyw eu bywyd pob dydd a chadw eu hannibyniaeth. Fel y nodwyd yn yr adroddiad, un maes sy'n destun gofid yw sut i daclo'r lleiafrif sydd o fwriad neu ddamwain yn camddefnyddio cynllun y Bathodyn Glas. Byddaf yn croesawu cyfleoedd i weithio gydag awdurdodau lleol yn y dyfodol i fonitro hyn a chymryd unrhyw gamau gorfodi sydd eu hangen.

Gweler ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad isod:

Argymhelliad 1. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r meini prawf cymhwystra ar gyfer bathodyn glas. Dylai'r adolygiad ystyried a oes amodau pellach a ddylai olygu bod rhywun yn gymwys yn awtomatig i dderbyn bathodyn glas, a yw'r broses ar gyfer cynnal asesiad pellach yn ddigon cadarn i ymateb i anghenion amrywiol y rhai sy'n gwneud cais, ac a yw anghenion y rhai sy'n cael diagnosis canser yn cael eu diwallu'n ddigonol.

Ymateb: Derbyn

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad diwethaf ar newidiadau i'r meini prawf cymhwystra yn 2016 a chafodd y rheoliadau eu newid i gynnwys namau symudedd dros dro o dan y meini prawf cymhwystra sy'n amodol ar asesiad pellach. Rydyn ni'n derbyn yr argymhelliad i gynnal rhagor o ymchwil i ystyried cymhwystra, asesiadau ac arweiniad. Bydd swyddogion yn ystyried ymchwil bellach trwy gydweithio â thair gwlad arall y DU (Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon) er mwyn adlewyrchu natur genedlaethol cynllun y Bathodyn Glas. Bydd y camau nesaf yn dibynnu ar ganfyddiadau'r ymarferiad hwnnw.

Goblygiadau Ariannol:

Bydd cost i gynnal rhagor o ymchwil; ond bydd cynnal yr ymchwil ar y cyd â Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn gostwng y gost trwy ei rhannu. Gan fod y costau wrthi'n cael eu cyfrif, ni ellir cadarnhau a oes modd talu am y costau hyn o'r cyllidebau presennol.

Argymhelliad 2. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddiweddaru ei chanllawiau i awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod y trefniant presennol o gyflymu ceisiadau gan y rhai sydd â diagnosis terfynol yn dod yn orfodol.

Ymateb: Gwrthod

Cydnabyddir pwysigrwydd sicrhau bod pobl sydd â salwch angheuol sy'n gymwys i gael bathodyn yn derbyn eu bathodyn cyn gynted ag y bod modd. Mae'r arweiniad diweddaraf o ran y meini prawf cymhwystra yn ôl disgresiwn eisoes yn ymdrin â phobl sy'n achos arbennig h.y. pobl sydd â nam ar eu symudedd sydd â salwch angheuol – gyda'u ceisiadau'n cael eu trin fel achosion arbennig. Gall tystiolaeth ffurflen DS1500 wreiddiol, llythyr esboniadol gan nyrs McMillan neu arbenigwr iechyd perthnasol, ymhlith eraill, gefnogi cais yr ymgeiswyr hyn. Gall cleifion neu eu cynrychiolwyr ofyn i'w meddyg teulu am ffurflen DS1500. Mae'r ffurflen yn esbonio rhai ffeithiau meddygol

sy'n berthnasol i bobl sydd â chanser neu gyflwr arall cynyddol sy'n cyfyngu ar eu bywyd. O gyflwyno'r ffurflen, nid oes angen asesiad arall a gellir rhoi'r Bathodyn Glas.

Rydyn ni felly'n gwrthod yr argymhelliad hwn. Fodd bynnag, fel rhan o'r adolygiad o'r modd y mae'r meini prawf cymhwystra yn ymdrin â'r mater hwn ac wrth adolygu'r canllawiau, byddwn yn ystyried a yw hyd y diagnosis o farwolaeth cyn pen chwe mis yn briodol. (Gweler argymhelliad 3). Bydd gwaith hefyd yn cael ei wneud i sicrhau bod y gwasanaeth yn gweithio er budd yr ymgeiswyr hyn.

Goblygiadau Ariannol:

Daw cost adolygiad o dan argymhelliad 1 uchod. Mae'r cyllidebau presennol yn ddigon i dalu am y costau gweinyddol.

Argymhelliad 3: Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddiweddaru ei chanllawiau i awdurdodau lleol i sicrhau bod rôl gofalwyr wrth wneud cais am fathodyn glas ar ran y person y maent yn gofalu amdano/amdani yn cael ei wneud yn glir.

Ymateb: Derbyn

Byddwn yn gwneud yn siŵr bod y canllawiau ynghylch y mater hwn yn glir.

Goblygiadau Ariannol:

Mae'r cyllidebau presennol yn ddigon i dalu am y costau gweinyddol.

Argymhelliad 4. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru archwilio opsiynau ar gyfer cyflwyno cynllun parcio dan gonsesiwn, ar wahân i gynllun y bathodyn glas, er mwyn diwallu anghenion y rhai sydd angen mynediad cyflym i amwynderau, megis gofalwyr, y rheini sydd â phroblemau anymataliaeth a'r rhai sy'n dioddef nam dros dro y disgwylir iddo bara llai na 12 mis, heb effeithio ar argaeledd mannau parcio ar gyfer y rhai sydd â phroblemau symudedd.

Ymateb: Gwrthod

Byddai hyn yn gofyn am sail dystiolaeth gadarn, a bydd yn cael ei gynnwys yn yr adolygiad a nodwyd yn argymhelliad 1 uchod, gydag ystyriaeth yn cael ei rhoi i gynllun y cerdyn 'Methu aros' ('Just can't wait').

Gweithredwr y maes parcio, boed awdurdod lleol neu gwmni preifat, sy'n gyfrifol am reoli a rhedeg meysydd parcio. Mae nifer o gwmnïau preifat eisoes yn rhedeg cynlluniau parcio penodol e.e. cerbydau â phlant. Cynlluniau cwrteisi yw'r rhain ac nid

oes modd eu gorfodi. Nid oes gan Lywodraeth Cymru yr awdurdod i gyflwyno cynlluniau parcio dan gonsesiwn.

Goblygiadau Ariannol: Amherthnasol

Argymhelliad 5. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddiweddaru ei chanllawiau i awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod eglurder y gall sefydliadau cymwys wneud cais am fathodyn glas yn eu rhinwedd eu hunain. Dylai'r canllawiau nodi, pan fydd sefydliad yn bodloni'r meini prawf o ofalu am bobl sy'n gymwys a'u cludo, yna dylai'r sefydliad hwnnw allu cael ei fathodyn glas ei hun, yn hytrach na dibynnu ar fathodynnau unigolion.

Ymateb: Derbyn

Byddwn yn gwneud yn siŵr bod y canllawiau ynghylch y mater hwn yn glir. (Gweler argymhelliad 3)

Goblygiadau ariannol:

Mae'r cyllidebau presennol yn ddigon i dalu am y costau gweinyddol.

Argymhelliad 6. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddiweddaru ei chanllawiau i nodi y dylid rhoi ystyriaeth gyson a phriodol i wybodaeth a ddarperir gan weithwyr proffesiynol priodol i gefnogi hawliad ymgeisydd am fathodyn glas.

Ymateb: Derbyn

Byddwn yn gwneud yn siŵr bod y canllawiau'n glir ynghylch y mater hwn. (Gweler argymhelliad 3)

Goblygiadau Ariannol:

Mae'r cyllidebau presennol yn ddigon i dalu am y costau gweinyddol.

Argymhelliad 7. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddiweddaru ei chanllawiau i awdurdodau lleol i nodi'n glir bod yr holl staff sy'n ymgymryd ag asesiadau bathodyn glas yn cael eu hyfforddi i ddeall y model cymdeithasol o anabledd ac i'w rhoi ar waith.

Ymateb: Gwrthod

Ni chaiff y canllawiau fynnu bod yr holl staff sy'n ymgymryd ag asesiadau bathodyn glas cael eu hyfforddi i ddeall y model cymdeithasol o anabledd ac i'w roi ar waith. Fodd bynnag, bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y canllawiau'n glir ac yn argymell bod yr holl staff sy'n ymgymryd ag asesiadau bathodyn glas yn cael eu hyfforddi i ddeall y model cymdeithasol o anabledd ac i'w roi ar waith.

Goblygiadau ariannol:
Mae'r cyllidebau presennol yn ddigon i dalu am y costau gweinyddol.

Argymhelliad 8. Rydym yn cefnogi argymhelliad 8 a wnaed gan Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau yn ei adroddiad ar ddatblygu trafnidiaeth Cymru yn y dyfodol, y dylai Llywodraeth Cymru fynd ati ar fyrder i ymgysylltu â rhanddeiliaid i ddatblygu'r Papur Gwyn nesaf ar y ddeddfwriaeth sy'n ofynnol i sefydlu Cyd-awdurdodau Trafnidiaeth. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae'n rhagweld rôl i'r rhai sydd â phrofiad personol o system y bathodyn glas wrth sefydlu Cyd-awdurdodau Trafnidiaeth, yn enwedig gan ei bod yn ymddangos eu bod ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Ymateb: Gwrthod

Mae'r cynigion yn y Papur Gwyn ar Wella Trafnidiaeth Gyhoeddus yn ymwneud â bysiau, tacsis a cherbydau hurio preifat . Mae'n cynnwys cynigion cychwynnol hefyd sy'n ymdrin â threfniadau gweithio rhanbarthol ar gyfer rheoli a darparu gwasanaethau bysiau.

Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio'n glos â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu manylion y trefniadau gweithio rhanbarthol ac er mai rheoli a darparu gwasanaethau bysiau fydd yn cael y prif sylw, bydd Llywodraeth Cymru yn barod i drafod meysydd gweithgarwch eraill y gallai awdurdodau lleol fod eisiau eu gweinyddu ar lefel rhanbarth.

Goblygiadau Ariannol: Amherthnasol

Argymhelliad 9. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gymryd y camau angenrheidiol i ddiwygio Adran 21 Deddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970 er mwyn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi proses "ailystyried" neu "adolygu" mewn lle i ymdrin ag ymgeiswyr sy'n dymuno herio penderfyniad yr awdurdod ar gais am fathodyn glas. Dylai'r diwygiad i'r Ddeddf honno gynnwys pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau a chyhoeddi canllawiau statudol ar fanylion y broses.

Ymateb: Gwrthod

Byddai hyn yn gofyn inni ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol ac nid oes lle yn rhaglen ddeddfwriaethol tymor y Cynulliad hwn ar gyfer hynny.

Er nad oes gofyn cyfreithiol ar i awdurdod lleol feddu ar drefn apelio ar gyfer rhywun sy'n anghytuno â'r rheswm dros wrthod ei gais am fathodyn glas, mae Rheoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000 yn nodi bod yn rhaid i awdurdod lleol sy'n gwrthod cais am fathodyn roi gwybod trwy lythyr i'r ymgeisydd pam fod y cais wedi'i wrthod. At hynny, mae'r canllawiau'n argymell bod gan awdurdodau lleol bolisi clir ynghylch sut i adolygu penderfyniadau sy'n cael eu herio gan ymgeisydd.

O ganlyniad, mae gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol weithdrefnau eisoes ar gyfer ystyried ceisiadau i adolygu penderfyniad i wrthod rhoi bathodyn. Fodd bynnag, bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gydag awdurdodau lleol i adolygu'r canllawiau presennol ac ystyried sut i sicrhau cysondeb a hyrwyddo'r arfer gorau.

Goblygiadau Ariannol:

Mae'r cyllidebau presennol yn ddigon i dalu am y costau gweinyddol.

Argymhelliad 10. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gymryd y camau angenrheidiol i ddiwygio Adran 21 Deddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970 er mwyn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sefydlu proses genedlaethol ffurfiol ar gyfer apelio i ymdrin â'r rheini sy'n anfodlon â chanlyniad eu hapêl gychwynnol. Dylai'r diwygiad i'r Ddeddf honno gynnwys pŵer i wneud rheoliadau ar fanylion y broses, gan gynnwys pa gorff ddylai fod yn gyfrifol am ymdrin â'r apeliadau.

Ymateb: Gwrthod

Byddai hyn yn gofyn inni ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol ac nid oes lle yn rhaglen ddeddfwriaethol tymor y Cynulliad hwn ar gyfer hynny.

Er nad oes gofyn cyfreithiol ar i awdurdod lleol feddu ar drefn apelio ar gyfer rhywun sy'n anghytuno â'r rheswm dros wrthod ei gais am fathodyn glas, mae Rheoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000 yn nodi bod yn rhaid i awdurdod lleol sy'n gwrthod cais am fathodyn roi gwybod trwy lythyr i'r ymgeisydd pam fod y cais wedi'i wrthod. At hynny, mae'r canllawiau'n argymell bod gan awdurdodau lleol bolisi clir ynghylch sut i adolygu penderfyniadau sy'n cael eu herio gan ymgeisydd.

O ganlyniad, mae gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol weithdrefnau eisoes ar gyfer ystyried ceisiadau i adolygu penderfyniad i wrthod rhoi bathodyn. Fodd bynnag, bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gydag awdurdodau lleol i ddiwygio'r canllawiau presennol ac ystyried sut i sicrhau cysondeb a hyrwyddo'r arfer gorau.

Goblygiadau Ariannol:

Mae'r cyllidebau presennol yn ddigon i dalu am y costau gweinyddol.

Argymhelliad 11. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried y ffordd fwyaf effeithiol o ddiwygio Deddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970 i alluogi cyhoeddi canllawiau statudol mewn perthynas â chynllun y Bathodyn Glas, a chymryd y camau angenrheidiol i weithredu newid o'r fath. Dylai hyn gynnwys ystyried a ellir ehangu cwmpas y Bil Trafnidiaeth Gyhoeddus, y mae disgwyl i Lywodraeth Cymru ei gyflwyno, i gynnwys y newid angenrheidiol a'r newidiadau yr ydym wedi'u cynnig yn argymhellion 9 a 10, neu a ddylid cyflwyno Bil ar wahân i gyflawni hyn.

Ymateb: Gwrthod

Nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen pŵer i gyhoeddi canllawiau statudol mewn cysylltiad â chynllun y Bathodyn Glas. Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gydag awdurdodau lleol i adolygu'r canllawiau presennol ac ystyried sut i sicrhau cysondeb a hyrwyddo'r arfer gorau

Goblygiadau Ariannol: Amherthnasol

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i sefydlu gweithgor statudol o gynrychiolwyr awdurdodau lleol ar gyfer cynllun y Bathodyn Glas. Ar ôl ei sefydlu, dylai'r grŵp gyfarfod yn rheolaidd i rannu gwybodaeth ac arfer da wrth roi'r cynllun ar waith. Dylai'r grŵp gynnwys cynrychiolwyr sydd â phrofiad personol o'r cynllun er mwyn sicrhau y caiff barn y rhai yr effeithir arnynt yn uniongyrchol ei chynrychioli.

Ymateb: Derbyn

Bydd Llywodraeth Cymru'n sefydlu panel o gynrychiolwyr awdurdodau lleol i gwrdd yn rheolaidd i ystyried cyfleoedd i wella'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r canllaw a'r pecyn cymorth, i adolygu'r deunydd cynghori ac i rannu profiadau o gwynion. Byddwn yn siarad â chynrychiolwyr sydd â phrofiad o'r cynllun yn ôl y gofyn. (Gweler argymhelliad 3)

Goblygiadau Ariannol:

Mae'r cyllidebau presennol yn ddigon i dalu am y costau gweinyddol ac mae'r cyllidebau presennol yn ddigon hefyd i dalu am y costau sy'n gysylltiedig â chynnal cyfarfodydd o'r panel.

Argymhelliad 13. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddatblygu proses i alluogi'r rheini sy'n dioddef o gyflwr gydol oes neu ddirywiol i adnewyddu eu bathodyn glas yn awtomatig, heb asesiad pellach. Byddai'r gweithgor yr ydym wedi argymell y dylid ei sefydlu yn fforwm amlwg i hwyluso trafodaethau o'r fath.

Ymateb: Gwrthod

Mae'r baich sydd ar bobl a chanddynt fathodyn wrth fynd drwy'r holl broses ymgeisio o'r dechrau un pan fydd eu bathodyn yn dod i ben wedi cael ei nodi. Mae Gwasanaeth Digidol y Bathodyn Glas wedi bod ar waith ers mis Chwefror eleni. Mae wrthi'n symleiddio'r broses a newydd ychwanegu adran at y system lle gall awdurdodau lleol nodi bod bathodyn glas wedi'i roi am oes ac nad oes angen felly cynnal ail asesiad. Er bod yr Adran Drafnidiaeth wedi codi ymwybyddiaeth am y gwasanaeth hwn, bydd Llywodraeth Cymru'n atgoffa awdurdodau lleol am yr adran newydd hon.

Goblygiadau Ariannol: Amherthnasol

Argymhelliad 14. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu mecanwaith ar gyfer casglu data swyddogol ar gamddefnyddio bathodynnau glas sy'n benodol i Gymru er mwyn deall graddfa'r broblem yng Nghymru yn well.

Ymateb: Derbyn

Byddwn yn siarad ag awdurdodau lleol ynghylch pa ddata sydd ar gael i'w casglu am gamddefnyddio cynllun y Bathodyn Glas er mwyn cael gwybod beth yw maint y broblem a faint o gamddefnyddio sydd yng Nghymru.

Goblygiadau ariannol:

Bydd y cyllidebau staffio presennol yn ddigon i dalu am y costau gweinyddol.

Argymhelliad 15. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog roi diweddariad i'r Cynulliad erbyn Gorffennaf 2020 ar sut y mae camddefnyddio bathodynnau glas wedi gwella o ganlyniad i fod gan bob awdurdod lleol swyddogion gorfodi sifil mewn lle.

Ymateb: Derbyn

Bydd y Gweinidog yn rhoi gwybodaeth i'r Cynulliad er mwyn i'w swyddogion allu gwneud y gwaith yn argymhelliad 14; gweld pa wybodaeth sy'n cael ei chofnodi; pa ddata sydd angen i awdurdodau lleol eu casglu; a llunio trefniadau casglu data. Bydd y Gweinidog yn adrodd i'r Cynulliad yng ngaeaf 2020.

Goblygiadau Ariannol:

Bydd y cyllidebau staffio presennol yn ddigon i dalu am y costau gweinyddol.

Argymhelliad 16. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Llywodraeth y DU i archwilio opsiynau ar gyfer ehangu'r ystod o gosbau a roddir i'r rhai sydd wedi'u cael yn euog o gamddefnyddio'r system bathodyn glas, hyd at a chan gynnwys y posibilrwydd o roi pwyntiau cosb.

Ymateb: Gwrthod

Mae'n bwysig nodi bod yna nifer o droseddau sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio bathodyn glas, ac nid yw pob un ohonynt yn droseddau traffig. Hefyd, mae'r cosbau am y troseddau traffig perthnasol eisoes yn drwm.

Nid yw'r Cynulliad Cenedlaethol yn cael deddfu ar droseddau traffig ffyrdd, gan gynnwys y systemau pwyntiau cosb. Ond mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i gydweithio â Llywodraeth y DU ar arolwg sydd ar fin cael ei gynnal i ystyried sut i wella mesurau gorfodi a thaclo camddefnyddio bathodynnau.

Goblygiadau Ariannol: Amherthnasol

Argymhelliad 17. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru fynd ati i weithio gydag awdurdodau lleol a chyrff iechyd i hyrwyddo'r llyfryn "Pwy sy'n Gymwys am Fathodyn Glas?" trwy sicrhau bod copïau caled ar gael mewn lleoedd mae pobl yn mynd i gael gwybodaeth, fel llyfrgelloedd, canolfannau "hyb" awdurdodau lleol, Cyngor ar Bopeth a lleoliadau iechyd.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi hyrwyddo a dosbarthu'r llyfryn "Pwy sy'n Gymwys am Fathodyn Glas?". Fodd bynnag, fel rhan o waith dilynol Llywodraeth Cymru ar hyn, caiff cyflenwadau eu dosbarthu yn ôl y gofyn.

Goblygiadau Ariannol: Amherthnasol

Argymhelliad 18. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'i llwyfannau cyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth o'i llyfryn "Pwy sy'n gymwys am Fathodyn Glas?".

Ymateb: Derbyn

Byddwn yn defnyddio'n llwyfannau cyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth am 'Pwy sy'n Gymwys am y Bathodyn Glas?' trwy ddefnyddio tîm cyfathrebu Llywodraeth Cymru i drydar yn rheolaidd.

Goblygiadau Ariannol:

Bydd y cyllidebau staffio presennol yn ddigon i dalu am y costau gweinyddol.

Argymhelliad 19. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ysgrifennu at awdurdodau lleol i'w hatgoffa o bwysigrwydd ystyried y canllawiau ar barcio hygyrch yn Manual for Streets a Parking for Disabled People pan fyddant yn bwrw ymlaen â pholisi cynllunio ac yn gwneud penderfyniadau cynllunio. Dylid hefyd annog awdurdodau lleol i ymgynghori â grwpiau hygyrchedd i sicrhau y rhoddir ystyriaeth lawn i anghenion pobl anabl wrth wneud penderfyniadau.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor
Cafodd rhifyn diweddaraf Polisi Cynllunio Cymru ym mis Rhagfyr llynedd sy'n rhoi lle canolog i'r egwyddor o greu lle yn ein polisi cynllunio cenedlaethol. Er mwyn creu lle, rhaid datblygu a hwyluso cyfleusterau hygyrch mewn ffordd integredig, a sicrhau lleoedd o ansawdd uchel, sy'n ddirwystr ac yn gynhwysol i bob aelod o gymdeithas.

Mae lle a sut y mae ceir yn cael eu parcio yn gallu cael dylanwad mawr ar ansawdd lle. Mae rhifyn newydd Polisi Cynllunio Cymru yn cydnabod bod y ddarpariaeth parcio ceir yn dylanwadu'n drwm ar batrymau datblygu ac yn gofyn bod anghenion pobl anabl yn cael eu cydnabod a'u darparu'n ddigonol trwy gynllun datblygu a phenderfyniadau rheoli.

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod yr egwyddor o greu lle yn gofyn am newid diwylliant, o fewn awdurdodau cynllunio lleol ac yn y diwydiant datblygu. Mae Cyfarwyddiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru'n ystyried sut y gall Llywodraeth Cymru

helpu'r rheini sy'n rhoi'r polisi ar waith, fel Awdurdodau Cynllunio Lleol, trwy roi rhagor o arweiniad a hyfforddiant. Fel rhan o'r broses, byddwn yn ceisio hyrwyddo defnyddio canllawiau presennol fel y Manual for Streets and Parking for Disabled People.

Goblygiadau Ariannol:
Mae'r cyllidebau presennol yn ddigon i dalu am y costau gweinyddol.

Ken Skates
Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth